



Magnox



Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Medi 2012 am 3.00pm yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu)

Yn Bresennol:

Y Cyng. A M Jones	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Gordon Malcolm	Dirprwy Gyfarwyddwr Safle/Rheolwr Gwaith Wylfa
Dr John Idris Jones	Rheolwr Cymdeithasol-Economaidd Magnox (Wylfa)
Mr Tom Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa
Mr Fred Brookes	Rheolwr EHSS&Q, Safle Wylfa
Dr Les Davies	Arolygaeth Safle (Swyddfa Rheoleiddio Niwclear)
Mr Tom Hurford	Pŵer Niwclear Horizon
Mr Alan Hall	Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru
Mr Jonathan Jenkin	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Y Cyng. Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cyng. Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Y Cyng. Thomas Jones	Ward Llanfechell, Cyngor Sir Ynys Môn
Miss Lowri Jones	Swyddog Cyfathrebu, Safleoedd Tanwydd Magnox
Mrs Jean Jones	Llywodraethwr, Ysgol Syr Thomas Jones
Mr Mel O'Hara	Peiriannydd Wylfa wedi ymddeol
Y Cyng. J V Owen	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Parc a Mynydd
Mr Tim Poole	Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig
Mrs Saranne Postans	Pennaeth Cyfathrebu Safleoedd Tanwydd, Magnox
Y Cyng. W E Rowley	Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Mr Fred Brookes	Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa
Mrs Theresa Hughes	Magnox Wylfa
Mr Ted Allsop	Magnox Wylfa
Mrs Karin White	Swyddog Cefnogi Cyfathrebu, Magnox Wylfa
Miss Linda Wyn Jones	Rhaglen Ynys Ynni
Mrs Jane Honey	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Mr Nick King	Magnox, Swyddogaeth Peirianeg, Oldbury
Mr Nick King	Magnox, Swyddogaeth Peirianeg, Oldbury
Mrs Judy Turner	Magnox Wylfa
Mr Paul Walsh	Magnox Wylfa
Mr Gordon Warren	Cymdeithas Trigolion Bull Bay

Ymddiheuriadau

Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa
Albert Owen	Aelod Seneddol
Ieuan Wyn Jones	Aelod Cynulliad
Richard Parry Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Gareth Winston Roberts	Is-Gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Alan Smith	Horizon (Tom Hurford yn mynychu ar ei ran)
Peter Harrup	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Glenn Vaughan	Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Pippa Waterman	Marchnata a Chyfathrebu, Energy Solutions
Michelle Humphreys	Magnox Wylfa

Melanie Wymer
Paul Kennedy
Steve Roberts
Y Cyngh. Dylan Jones
PC Louise Evans
Gwyneth Jones
Mr Dylan Williams

Rheolaeth Ystâd Meyrick
Asiantaeth Safonau Bwyd
Aelod o'r Cyhoedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cynllunio Gweithredol, Heddlu Gogledd Cymru
Merched y Wawr
Pennaeth Datblygu Economaidd Dros Dro,
Cyngor Sir Ynys Môn

1. Croesawu ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Eglurodd nad oedd Stuart Law yn gallu mynychu cyfarfod heddiw ond bod Gordon Malcolm, Dirprwy Gyfarwyddwr Safle, yn mynychu ar ei ran.

Roedd llythyr wedi'i dderbyn gan deulu Arglwyddes Môn i ddweud yn anffodus na fydd yn gallu mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle mwyach. Cynigiwyd bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon i deulu Arglwyddes Môn i ddiolch iddi am ei chyfraniad a'i chefnogaeth dros y blynyddoedd.

Fe wnaeth y Cadeirydd hefyd longyfarch y Comander Tom Conway ar dderbyn Doethuriaeth Anrhydeddus gan Brifysgol Abertawe. Roedd Gordon Malcolm am ei longyfarch hefyd. Ymatebodd Tom Conway trwy ddweud ei fod yn cyflwyno'r Wobr i'w gydweithwyr yn Wylfa ac i'w gyd-wasanaethwyr yn y Llynges Brydeinig, ac roedd yn hynod o ddiolchgar i'r ddau grŵp am eu cefnogaeth.

2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 07 Mehefin 2012 a materion yn codi

Nid oedd unrhyw newidiadau i'r cofnodion blaenorol. Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cynghorydd JV Owens a chafodd ei eilio gan y Cyngh. Tom Jones.

Gofynnodd Tom Conway sut y gallai pobl gael gafael ar Arolwg Ecolegol Horizon. Dywedwyd wrtho am gysylltu â Phŵer Niwclear Horizon er mwyn cael rhagor o wybodaeth - bydd Tom Hurford yn cysylltu â Tom Conway. Gofynnodd gwestiwn hefyd ynghylch y Penderfyniad Tanwydd Ocsid gan DECC. Mynegodd wrthwynebiad cryf i fethiant y llywodraeth i ailgylchu ac adfer gwastraff yn danwydd y gellid ei ail-ddefnyddio. Bydd ei sylwadau yn cael eu trosglwyddo i DECC.

3. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Cyflwynwyd Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle gan Gordon Malcolm ar ran Stuart Law. Dechreuodd trwy ddweud ei fod wedi bod yn gyfnod llwyddiannus yn Wylfa. Roedd y safle wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear i gychwyn trosglwyddo tanwydd rhwng yr adweithyddion. Byddai hyn yn galluogi Adweithydd 1 i gynhyrchu'n barhaus hyd fis Medi 2014. Mae trosglwyddo tanwydd, sydd wedi'i ddefnyddio'n rhannol, o Adweithydd 2 i Adweithydd 1 (proses a elwir yn Drosoglwyddiad Tanwydd Rhwng Adweithyddion - IRX) wedi dechrau'n llwyddiannus erbyn hyn. Mae'r cyfnod cynhyrchu estynedig hwn yn gyfle gwych i staff.

Am y cyfnod hyd at 28ain Gorffennaf, roedd Wylfa wedi creu 1.427TWhrs, sydd lawer yn uwch na'r targed. Mae 7 fflasg tanwydd wedi'i ddefnyddio wedi cael eu trosglwyddo i Sellafield.

Cafwyd digwyddiad yn ymwneud â Thyrbîn 3 arweiniodd at golli llwyth ar yr uned a allai fod wedi achosi i'r adweithydd gael ei gau i lawr yn ddirybudd. Mae ymchwiliad i'r camgymeriadau dynol a wnaed wedi arwain at friffio staff gweithredol. Roedd yna hefyd fater yn ymwneud â larwm rod parth yn Adweithydd 2, ond mae hyn bellach wedi cael ei gywiro

ac mae ymchwiliad yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Pwyllgor Diogelwch Niwclear Magnox. Ym mis Mehefin, cafwyd digwyddiad gyda llwytho tanwydd lle rhoddwyd elfen tanwydd mewn sianel gerllaw. Roedd hyn o ganlyniad i beiriannydd ffiseg adweithyddion yn dewis y math anghywir o danwydd i gael ei lwytho i'r sianel ac na chafodd hynny ei atal gan y system meddalwedd fel y bwriadwyd. Mae llawer o brofion wedi cael eu gwneud er mwyn atal hyn rhag digwydd eto yn cynnwys cywiro'r meddalwedd cofnodi tanwydd.

Mae gosod cyflenwad trydan dros dro wedi gwaredu'r angen am generadur disel i roi pŵer i gyfarpar i ddarparu awyr sych i Adweithydd 2. Mae hynny wedi arwain at arbedion ariannol ac amgylcheddol sylweddol i'r safle.

Mae Magnox wedi derbyn Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl sydd yn fraint arbennig iawn. O ran hyfforddiant, mae mwy na 60% o'r gweithlu yn Wylfa a Thrawsfynydd yn awr wedi'u cofrestru ar Brosiect Siapio'r Dyfodol sy'n rhaglen o gefnogi, ail-hyfforddi ac ail-leoli'r gweithlu wrth i'r safle symud tuag at orffen cynhyrchu a chael gwared ar danwydd.

Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb hynod o fywiog a diddorol gyda Charles Hendry AS, Gweinidog Gwladol dros Ynni yn ystod ei ymweliad â Wylfa. Fe wnaethon ni hefyd groesawu nifer o fyfyrwyr ar leoliadau gwaith a phrofiad gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Cronfa Wylfa 21 wedi cyfrannu mwy na £10,000 i 19 elusen.

Diolchodd y Cadeirydd i Gordon Malcolm am yr Adroddiad a'i longyfarch ar y newyddion da parthed ymestyn cynhyrchu a gwaith parhaus y safle gyda'r gymuned.

Gofynnodd Tom Jones am y digwyddiad fu bron â digwydd yn Nhyrbîn 3 gan ofyn pa gategori o ddigwyddiad fyddai wedi bod pe byddai wedi digwydd. Atebodd Gordon Malcolm na fyddai o reidrwydd wedi arwain at gau adweithydd. Fe fyddai colli allbwn y tyrbîn wedi bod yn fwy tebygol (INES categori sero). Cynhaliwyd ymchwiliad llawn ac mae gwersi wedi cael eu dysgu.

Gofynnodd Arthur Jones a oedd digwyddiadau tebyg wedi bod yn y gorffennol a mynegodd syndod fod damwain mor syml wedi digwydd. Atebodd Gordon Malcolm fod hwn yn gamgymeriad perfformiad dynol a bod system atal camgymeriadau yn cael eu datblygu fel rhan o drefn amddiffyn er mwyn osgoi canlyniadau mwy difrifol.

Gan fod hanner yr orsaf bŵer bellach yn segur, gofynnodd Gordon Warren sut mae'r hanner hwnnw yn cael ei reoli - a yw'r gwaith yn cael ei gynnal a'i gadw ar gyfer darnau neu a ydyw'n cael ei ddatgomiynu? Atebodd Gordon Malcolm fod Tyrbîn 3 yn cael ei roi mewn cymal cynnal a chadw tymor hir a bod Tyrbîn 4 yn segur ac y gellid ei ddefnyddio am y rhannau.

Gofynnodd Tom Conway a oedd y digwyddiad cam-lwytho tanwydd yn ymwneud ag elfen neu â sianel. Eglurodd Gordon Malcolm ei fod yn rhan o'r broses ail-lwytho tanwydd pan lwythwyd y math anghywir o danwydd i mewn i'r sianel. Roedd hwn yn gamgymeriad rhaglennu a wnaed yn bosibl gan gamgymeriad meddalwedd cofnodi tanwydd. Mae'r meddalwedd Cofnodi Tanwydd wedi cael ei addasu er mwyn atal digwyddiad o'r fath eto.

4. Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig. Dywedodd ei fod yn cyfarfod yn rheolaidd â John Idris Jones er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac fe fu yng Nghyfarfod Adolygu Ceisiadau Cymdeithasol Economaidd yn Wylfa ar 4ydd Gorffennaf. Bu hefyd yng Nghynhadledd Bidwyr RSRL Magnox/NDA ym Manceinion ac mae wedi gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf ar y broses gystadlu.

Roedd Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, David Jones, wedi ymweld â'r orsaf heddiw. Roedd hyn yn arwydd cadarnhaol o'i gefnogaeth a chefnogaeth Llywodraeth y DU i Adeilad Newydd yn Wylfa.

Gofynnodd Tom Conway pam fod EnergySolutions UDA yn meddwl am werthu EnergySolutions Ewrop. Atebodd y Cadeirydd nad oedd gan Energy Solutions UDA ddewis yn y mater oherwydd eu sefyllfa ariannol anodd yn America. Nid oedd hyn yn ymwneud ag ymrwymiad Llywodraethau yn Ewrop tuag at gynhyrchu niwclear.

5. Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) – y newyddion diweddaraf

Rhoddodd Jonathan Jenkin y newyddion diweddaraf ar ran NDA. Llongyfarchodd y safle ar gael cymeradwyaeth IRX. Roedd yr NDA yn falch o gyhoeddi fod Charles Hendry wedi ymrwymo £480,000 tuag at Gymal 2 prosiect Ynys Ynni.

Crybwyllodd hefyd y Papur Strategaeth ar Reoli Gwastraff Lefel Canolradd yn edrych ar fanteision cyfuno storio gwastraff. Dywedodd hefyd na wnaed unrhyw benderfyniad ar leoliad ac amserlen y cyfleuster geo-waredu, fodd bynnag mae'r Llywodraeth wedi gosod allan proses glir gyda chymunedau yn cael eu gwahodd i fynegi diddordeb ac i gychwyn deialog. Hyd yn hyn, mae 3 cymuned wedi mynegi diddordeb, a phob un ohonynt yn ardal Cumbria. Mae Romney Marsh yn Swydd Gaint hefyd yn ystyried mynegi diddordeb ac ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda thrigolion. Mae hwn yn brosiect seilwaith tymor hir.

Gofynnodd Tom Conway am gynaliadwyedd daearegol safle Romney Marsh. Atebodd Jonathan Jenkin fod y broses sgrinio a fydd yn cael ei defnyddio ar ôl y mynegiant o ddiddordeb wedi cael ei derbyn yn ffurfiol. Bryd hynny, fe fydd arolygon tyllau turio mwy dwys yn cael eu cynnal.

Atebodd John Idris Jones gwestiwn gan Tom Conway am storio sych trwy ddweud fod gan DECC reolau mewn lle i sicrhau fod unrhyw ddarpar ddatblygwr o orsafoedd pŵer niwclear yn cynhyrchu cynllun yn dangos sut maent yn bwriadu storio tanwydd ar y safle am tua chanrif. Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod yn rhaid ystyried hyn yn ystod y cyfnod cynllunio ond nid yw o reidrwydd yn golygu y bydd tanwydd yn cael ei storio ar y safle am y cyfnod hwn.

Roedd yna hefyd drafodaeth am y gystadleuaeth i benodi corff rhiant i Magnox. Mae hyn yn ofyniad dan y Ddeddf Ynni. Mae'r contract cyfredol yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2013 ac mae eisoes wedi cael ei ymestyn unwaith. Mae angen proses gystadleuaeth agored yn awr i leihau'r risg o her gyfreithiol. Mae'r cyfnod holiadur cyn-cymhwyso wedi cael ei ymestyn 6 wythnos er mwyn ystyried cyhoeddiad proses werthu EnergySolutions. Mynegodd Tom Conway bryderon am atebolrwydd os gwneir newidiadau i gyrff rhiant, ond fe'i sicrhawyd fod diogelwch mewn lle o fewn Trwydded y Safle i sicrhau rheolaeth barhaus.

Aeth Jonathan Jenkin yn ei flaen i ddweud y bydd Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Cenedlaethol yn cael ei gynnal ddiwedd Hydref ym Manceinion pan fydd Cadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid Safle ac Is-Gadeiryddion yn cael eu gwahodd i fynychu. Yn ystod y cyfarfod hwn bydd Cadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safle yn cael eu briffio ar yr elfen Gymdeithasol Economaidd lleol. Soniodd hefyd fod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr NDA wedi cael eu cyhoeddi a bod dogfen grynhai ar gael.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod y cynnig gan RSRL/Magnox wedi codi cwestiynau parthed y manteision cymdeithasol economaidd sydd angen bod yn rhan o'r broses gystadlu. Cadarnhaodd Jonathan mai bwriad yr NDA oedd i'r fantais Gymdeithasol Economaidd fod yn rhan o'r cytundeb.

6. Newyddion diweddaraf gan Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Cyflwynodd Dr Les Davies ei adroddiad a oedd wedi cael ei ddsbarthu cyn y cyfarfod. Roedd dau eitem pellach wedi digwydd ers cyhoeddi'r adroddiad chwarterol sef y cytundeb ffurfiol i ddefnyddio ail lwybr tanwydd Cell 5 Storfa Sych (DSC5) ar gyfer IRX a'r safle yn derbyn cymeradwyaeth ar gyfer IRX.

Ar gyfer defnydd DSC 5, fe fyddai angen cytundeb ffurfiol gan yr ONR a'u bod wedi cytuno ar y broses hon mewn egwyddor, gyda rhai mân addasiadau.

Cyn cael cymeradwyaeth yr IRX ddiwedd Gorffennaf, cynhaliwyd asesiad technegol manwl gan edrych ar 4 elfen yn benodol: Astudiaethau Nam; Ffactorau Dynol; Integriti Tanwydd; Rheolaeth ac Offer. Nid oedd unrhyw broblem gydag arolwg bod yn barod ar gyfer dechrau IRX, fodd bynnag mae rhai meysydd wedi cael eu clustnodi fel rhai sydd angen gwaith dilynol. Mae crynodeb o'r Achos Diogelwch IRX ar gael ar wefan ONR.

Cyfaddefodd Arthur Jones nad oedd yn fodlon gyda'r esboniadau a roddwyd parthed camgymeriadau dynol a gofynnodd pa welliannau sydd eu hangen ar gyfer hynny. Atebodd Les Davies fod pob adroddiad am ddigwyddiad yn cael ei wirio a bod detholiad ohonynt yn cael eu harchwilio. Dywedodd nad oedd unrhyw enghreifftiau penodol o'r un bobl yn gwneud yr un camgymeriadau ddwywaith.

7. Cyflwyniad ar Raglen Gweithredu Magnox (MOP)

Amcan Rhaglen Gweithredu Magnox yw galluogi'r DU i ddiwallu ei ymrwymadau amgylcheddol a diogelwch rhyngwladol wrth ddirwyn cylch tanwydd Magnox i ben trwy benderfynu ar y drefn o gau a'r amserlenni disgwylidig ar gyfer cwblhau gwaredu tanwydd ac ailbrosesu tanwydd.

Mae holl danwydd Magnox yn awr wedi cael ei gynhyrchu a'i ddsbarthu i'r safleoedd - cyrhaeddodd y tanwydd olaf Wylfa ym mis Rhagfyr 2011. Nid yw'r rhaglen hon mor gaeth â Rhaglenni Gweithredu blaenorol gan ei bod yn ystyried amrediad o sefyllfaoedd - o ran uchaf perfformiad i'r rhan isaf perfformiad. Derbynnir fod y Rhaglen yn fwy tryloyw ynghylch ansicrwydd gallu ac felly hefyd yr amserlen. Fodd bynnag, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch rheoli lefelau stoc, eglurwyd fod yr NDA am orffen prosesu yn Sellafield cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnodd Tom Conway am ateb ysgrifenedig i'w ymholiad ar leihau caesiwm. Bydd Jonathan Jenkin yn trefnu ateb. Gofynnodd Arthur Jones am ailbrosesu tanwydd, ac yn arbennig, beth sy'n digwydd i danwydd Magnox ar ôl iddo gael ei brosesu yn Sellafield. Eglurodd Jonathan Jenkins fod atebion tymor hir yn cael eu hystyried. Cafwyd trafodaethau hefyd ynghylch amserlenni gwaredu tanwydd Wylfa a thargedau Sellafield i gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Magnox.

8. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Grŵp Gwastraff Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Cyflwynodd Mr Thornton adroddiad gan Grŵp Gwastraff Wylfa oedd wedi cyfarfod wythnos ynghynt. Dywedodd fod y 5 mater canlynol wedi cael eu trafod:

- 1) Roedd y llosgydd gwastraff lefel isel yn segur. Mae wedi cael ei arolygu ac fe fydd stac newydd yn cael ei osod, disgwylir i'r llosgydd gael ei ail-gomisiynu ym mis Tachwedd.
- 2) Roedd peth gweddillion rhydu yng Nghell 4 y Storfa Sych yn dilyn gwaredu'r tanwydd. Mae'r safle ar hyn o bryd yn chwilio am opsiynau ymarferol ar gyfer ymdrin â hyn a bydd aelodau'r is-grŵp yn cael eu gwahodd i weithdy opsiynau cyn diwedd mis Rhagfyr.

3) Y cynllun gwastraff lefel isel ar y cyd Mae bwriad clir i wyro gwastraff oddi wrth y stordy gwastraff lefel isel trwy ailgylchu'r metelau a lleihau'r deunydd sy'n cael ei anfon i Cumbria a llosgi'r gwastraff ar y safle. Mae'r safle ar hyn o bryd ychydig y tu ôl y targedau a bennwyd ond maent yn gobeithio eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4) Strategaeth Ansawdd Tir - Mae hyn yn baratoad ar gyfer y cyfnod Gofal a Chynnal ac fe'i rheolir gan bwynt canolog.

5) System Tracio Gwastraff Ar hyn o bryd mae gwastraff ar y safle yn cael ei dracio â llaw. Mae system newydd wedi cael ei datblygu i dracio'r gwastraff ar y safle gan ddefnyddio technoleg sganio codau bar. Mae'r wybodaeth gan y sganiwr i'w weld ar y safle a gellir cael mynediad i'r wybodaeth hon yn ganolog gan Magnox.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr is-grŵp gwastraff yn chwilio am aelodau ychwanegol i ymuno â'r is-grŵp. Mae'r grŵp yn cyfarfod unwaith bob chwarter ar amser cyfleus i'r aelodau. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb roi eu henw i'r Ysgrifenyddiaeth. Bydd aelodaeth yr is-grŵp yn eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

9. Newyddion Diweddaraf am y Cynllun Cymdeithasol Economaidd

Cyflwynodd Saranne Postans yr adroddiad am faterion cymdeithasol-economaidd. Dywedodd ein bod ni 6 mis i mewn i'r broses ymgeisio newydd ar y we a bod y problemau cychwynnol yn awr wedi'u datrys. Hyd yn hyn, mae 207 o geisiadau wedi'u derbyn ledled 10 safle Magnox. Y nifer o geisiadau a gymeradwywyd parthed safle Wylfa oedd 10, gyda chyfanswm gwerth o £26,910. Dywedodd bod nifer fawr o gynlluniau gwerth ariannol is wedi cael eu cymeradwyo yn ogystal ag arian parhaus ar gyfer Rhaglen Ynys Ynni. Os yw unrhyw un yn gwybod am gynllun haeddiannol sydd angen cyllid, yna fe ddylent gysylltu â Michelle Humphreys a chyflwyno cais ar-lein.

10. Newyddion diweddaraf am y Cynllun Cadwyn Gyflenwi

Rhoddodd Paul Walsh, Rheolwr Cadwyn Gyflenwi Wylfa, gyflwyniad ar y Cynllun Cadwyn Gyflenwi. Dywedodd fod hon yn Strategaeth Fasnachol yn dilyn penderfyniad 18 mis yn ôl i ailstrwythuro'r trefniadau masnachol er mwyn unioni'r fantol o Gaffael i Ddarparu. Cymhwyswyd arfer dda a gwersi a ddysgwyd o safleoedd eraill i'r broses hon. Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cynnal astudiaeth o fanteision economaidd contractau, gan edrych yn benodol ar wariant cadwyn gyflenwi. Mae amcangyfrifon cynnar yn awgrymu fod gwariant y gadwyn gyflenwi yn lleol yn ddwbl gwariant Wylfa.

Mynegwyd pryderon am yr oedi i 2 gontract a oedd wedi cael eu rhoi o'r neilltu ar ôl sialens i'r prosesau tendro. O ganlyniad, mae'r Cynllun Caffael wedi cael ei symleiddio gyda'r bwriad o sicrhau mwy o amlygrwydd, cyswllt uniongyrchol a defnydd rhwydd.

Fe wnaeth rhai aelodau fynegi siom fod cwmnïau lleol wedi colli contractau oherwydd baich gweinyddol y broses dendro. A oedd y cwmnïau hyn wedi cael mynediad i'r gefnogaeth ar gael? Mewn ymateb, dywedwyd wrth y cyfarfod fod 4 cwmni wedi cael cynnig cefnogaeth gyda'r broses gaffael rhwng 2007 a 2011. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig cefnogaeth trwy ei Wasanaeth Cynghrair sy'n talu am yr holl gostau cyfreithiol, yn ogystal â rhedeg gweithdai Sut mae Tendro.

Mynegodd y Cyngh. J V Owen bryder pellach nad oedd pobl leol yn llwyddiannus wrth geisio am waith. Gofynnodd hefyd a yw gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn cael ei chynnig gyda'r pecynnau contract. Dywedodd fod staff o 4 cwmni lleol wedi cael eu trosglwyddo i gontractwr newydd a gofynnodd am faint y bydd eu telerau cyflogaeth yn cael eu cynnal. Dywedwyd wrtho fod prosesau TUPE yn diogelu hawliau gweithwyr mewn trefniadau trosglwyddo.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig fod y broses gaffael yn y sector ynni yn cael ei gweld yn cefnogi cwmnïau lleol. Mae'r rhaglen ynys ynni trwy gyfrwng cyngor Ynys Môn yn cydweithio â Magnox er mwyn penderfynu beth sydd angen iddynt ei wneud i helpu cwmnïau lleol i dendro yn y sector ynni.

11. Prosiect Fukushima - newyddion diweddaraf am waith yn Wylfa

Rhoddodd Ted Allsop gyflwyniad ar Brosiect Fukushima gan amlinellu ei rôl yn cyd-gysylltu ymateb Wylfa ers y digwyddiad yn Siapan. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf gyda 5 gweithdy Magnox yn cael eu cynnal ac Adroddiad Weightman ac argymhellion yn cael eu cyhoeddi. Hefyd cwblhawyd adroddiad Prawf Straen a'i adolygu gan ONR ac ENSREG. Gwnaeth yr ONR argymhellion pellach ac mae mwyafrif y rheiny bellach wedi cael eu gweithredu.

Gofynnodd Tom Conway am faint o'r broses datgomisiynu y bydd angen y cyfarpar. Dywedwyd wrtho na fydd angen y cyfarpar am gyfnod sylweddol ond byddai angen y generaduron wrth i ni fynd ymlaen i'r cyfnod gofal a chynnal.

Aeth Tom Conway yn ei flaen i ofyn am nifer y personél ar y safle yng nghanol y nos neu yn ystod amodau eithafol, faint o bobl fyddai eu hangen i weithio'r cyfarpar. Atebodd Gordon Malcolm fod yna 20-24 aelod o staff yn y tîm argyfwng a bod tîm atgyweirio niwed ar alwad o hyd. Prin yw'r gweithredu sydd angen ei wneud o fewn cyfnod o 72 awr, felly mae'r niferoedd yn ddigonol.

Gofynnodd y Cyng. J V Owen lle mae'r cyfarpar argyfwng yn cael ei gadw. Dywedwyd wrtho fod yna storfa cyfarpar argyfwng ar y safle. Hefyd, mae dau Eneradur 415V cludadwy wedi cael eu prynu ac mewn argyfwng, gellid defnyddio'r rhain ar gyfer goleuo, cyfathrebu, gwefru batris gorsaf ac ati. Cedwir y rhain yn adran storfa Fukushima sydd yn ardal uwchben lefel y môr. Hefyd, mae 6 pwmp tân newydd wedi cael eu prynu ac mae pob un yn gallu cyflenwi gofynion bwydo bwyler yr Adweithydd am 72 awr.

Gofynnodd T Hurford a oedd gan yr ONR unrhyw ran yn y broses o gaffael y cyfarpar newydd? Cadarnhawyd fod ONR wedi cael peth rhan yn y drafodaeth ac yn y broses o gael yr ymatebion a gafwyd gan yr ONR.

Gofynnodd A Jones a oedd yna system awtomataidd mewn lle i gau'r adweithydd mewn argyfwng - wrth ystyried tywydd eithafol? Eglurodd Gordon Malcolm fod system diogelu Adweithyddion mewn lle a oedd yn cael ei reoli gan achos diogelwch ONR.

12. Unrhyw Fater Arall

Goblygiad Cynhyrchu Estynedig ar Gynigion Datgomisiynu

Eglurodd Graeme McLaren o'r Swyddogaeth Peirianeg yng Nghanolfan Dechnegol Oldbury wrth yr aelodau fod cynigion datgomisiynu Wylfa yn cael eu hail-ystyried er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddilys yn dilyn rhoi caniatâd i'r safle i ymestyn y cynhyrchu. Hefyd, tanlinellwyd rôl bwysig y Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn y broses ymgynghori flaenorol. Rhoddir cyflwyniad yng nghyfarfod mis Rhagfyr Grŵp Rhanddeiliaid Safle ar oblygiadau cynhyrchu estynedig ar gynigion datgomisiynu wrth i ni symud ymlaen. Gan weithio ochr yn ochr â'r ONR, bydd y tîm Peirianeg yn edrych ar gynllun datgomisiynu Wylfa er mwyn gweld a oes angen ail-ymweld â'r gwaith o ganlyniad. Disgwylir y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r ONR ddiwedd mis Mawrth 2013.

13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Rhagfyr 2012 ac nid ar y 6ed fel a nodwyd yn wreiddiol.